**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cabinet

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 19 Hydref 2017 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | W Evans | R Francis-Davies |
| A S Lewis | C E Lloyd | J A Raynor |
| M Sherwood | M Thomas | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): D H Hopkins

---

## 60. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cyng. M Thomas fudd personol yng Nghofnod 68 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol".

## 61. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Medi 2017.

## 62. Adroddiad(au) Arweinydd y Cyngor.

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

## 63. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau mewn perthynas â Chofnod 71 "Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif - adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Gorseinon ym Mharc y Werin, Gorseinon, Abertawe".

Ymatebodd Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes (Swyddog Monitro) a'r Aelod Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes.

## 64. Hawl i holi cynghorwyr.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau mewn perthynas â Chofnod 71 "Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif - adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Gorseinon ym Mharc y Werin, Gorseinon, Abertawe".

Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes.

## 65. Adborth o'r Cyfarfod Craffu cyn Penderfynu - Adfywio Sgwâr y Castell.

Cyflwynodd y Cynghorydd M H Jones yr adborth ar graffu cyn penderfynu.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi cynnwys yr adborth ar graffu cyn penderfynu.

## 66. Adfywio Sgwâr y Castell.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Phrosiectau Mawr adroddiad a oedd yn cyflwyno arfarniad o'r opsiynau ar gyfer gosod cyfle datblygu rhannol, opsiynau yn nhermau dulliau cyflwyno a phrif egwyddorion papur briffio rhagarweiniol ar ddatblygu, mannau cyhoeddus a marchnata er mwyn cefnogi'r gwaith gwella a'r cyfle datblygu rhannol yn rhan o Sgwâr y Castell.

**Penderfynwyd:**

1) O'r opsiynau cyflwyno sydd ar gael, yr ymagwedd a ffefrir yw bod Cyngor Abertawe'n gweithredu fel datblygwr gyda rheolwr datblygiad allanol wedi'i sicrhau ar gyfer y gwaith gwella a'r cyfle datblygu rhannol yn Sgwâr y Castell;

2) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd i baratoi papur briffio ar ddatblygu, mannau cyhoeddus a marchnata sy'n nodi cyfle datblygu, o ddewis yn Lleoliad 1 a 3 fel a nodir yn yr adroddiad, ond nid yw'n atal atebion dylunio blaengar a chyfiawnadwy sy'n cyd-fynd â'r amcanion a'r egwyddorion allweddol a nodwyd yn y briff rhagarweiniol.

## 67. Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2016/17.

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes a oedd yn cyflwyno adolygiad o'r cynnydd a wnaed gan y cyngor o ran cyflawni'r blaenoriaethau, y camau gweithredu a'r targedau a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol Cyflawni dros Abertawe ar gyfer 2015-2017, yn unol â gofyniad Rhan 1 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2016-2017.

## 68. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i'r enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol fel y'u hargymellwyd gan Banel Penodi Llywodraethwyr yr ALl:

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Ysgol Gynradd Blaenymaes | Mr Herbert Paddison |
| 2. | Ysgol Gynradd Clwyd | Mr Douglas Thomas |
| 3. | Ysgol Gynradd y Crwys | Mr Phillip Place |
| 4. | Ysgol Gynradd Penyrheol | Y Cynghorydd Andrew Stevens |
| 5. | Ysgol Gynradd Pontarddulais | Mrs Jane Harris |
| 6. | Ysgol Gynradd Talycopa | Mrs Rebecca O'Brien |
| 7. | Ysgol Gynradd Waun Wen | Mrs Lynwen Barnsley |
| 8. | YGG y Login Fach | Y Cyng. Wendy Lewis |
| 9. | Ysgol Gyfun Treforys | Mrs Lisa Pike |

## 69. Adroddiad Blynyddol Cwynion 2016-17.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes adroddiad er gwybodaeth a oedd yn adrodd am waith y Tîm Cwynion Corfforaethol, gan amlygu nifer, natur a chanlyniad cwynion yn erbyn yr Awdurdod, yn ogystal â manylion y gwersi a ddysgwyd a gwelliannau i'r gwasanaeth. Roedd Adroddiad Blynyddol Cwynion Corfforaethol yn cynnwys y canlynol:

- Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion;
- Cwynion y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd;
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth (FOI);
- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA).

## 70. Diweddariad am Roi'r Strategaeth Ddigidol ar Waith.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes adroddiad a oedd yn darparu diweddariad am roi'r Strategaeth Ddigidol a phrosiectau cysylltiedig ar waith.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r cynnydd a wnaed;

2) Parhau i gyflwyno'r strategaeth ddigidol.

## 71. Rhaglen Ysgolion Yr 21Ain Ganrif - Adeilad Newydd I Ysgol Gynradd Gorseinon Ar Dir Ym Mharc Y Werin, Gorseinon, Abertawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes adroddiad a oedd yn ceisio penderfyniad ynghylch a fyddai'r tir ym Mharc y Werin, Gorseinon yn briodol at ddibenion addysg. Ceisiwyd hefyd gadarnhau ymrwymiad y Rhaglen Gyfalaf i'r cynllun ar gyfer adeilad newydd Ysgol Gynradd Gorseinon yn amodol ar ymrwymo i gontract gyda Llywodraeth Cymru.

**Penderfynwyd:**

1) Nid oes angen y tir a ddelir gan y cyngor ar hyn o bryd at y diben y mae'n cael ei feddiannu mwyach, sef tir ar gyfer tai a hamdden, fel a nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad;

2) Meddiannu'r tir ym Mharc y Werin, Gorseinon a nodir ar y cynllun yn Atodiad A yr adroddiad at ddibenion addysg o dan Adran 122 Deddf Llywodraeth Leol 1972, sef adeiladu adeilad ysgol gynradd newydd;

3) Cymeradwyo'r cynllun cyfalaf fel a fanylwyd gyda'r goblygiadau ariannol a nodwyd yn Atodiad C yr adroddiad, yn amodol ar ymrwymo i gontract gyda Llywodraeth Cymru.

4) Bydd yr ardal fach o dir oddeutu 3.212 erw, y bwriedir cynnwys maes pob tywydd ac Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) arni y dangosir ar y cynllun sydd wedi'i atodi yn Atodiad B yr adroddiad, yn ffurfio rhan o safle newydd yr ysgol ac felly bydd yn parhau i gael ei rheoli gan yr ysgol. Pan na fydd y maes pob tywydd a'r MUGA yn cael eu defnyddio gan yr ysgol, mae'n bosib i'r cyhoedd eu defnyddio - bydd y manylion hynny'n cael eu cynnwys yng nghytundeb defnydd y gymuned;

5) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes i gael mynediad i unrhyw ddogfennaeth angenrheidiol sydd ei hangen er mwyn cyflawni'r cynllun.

## 72. Arweiniad wedi'i ddiweddaru am Gyllideb Gymunedol yr Aelodau.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol adroddiad a oedd yn ceisio diwygio'r meini prawf er mwyn cyflwyno'r cynllun Cyllideb Gymunedol ac i ddarparu arweiniad ychwanegol.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo arweiniad diwygiedig sy'n ymwneud â Chyllidebau Cymunedol.

## 73. Adroddiad FPR7 - Buddsoddi cyfalaf mewn mesurau effeithlonrwydd ynni yn asedau'r cyngor.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Tai, Ynni ac Adeiladau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ddefnyddio rhaglen Re:fit Cymru Llywodraeth

Cymru ac arian o Raglen Ariannu Cymru Llywodraeth Cymru (a reolwyd gan Salix Finance) a manteision ymagwedd o'r fath.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo astudiaeth dichonoldeb fanwl bellach y buddsoddiad cyfalaf arfaethedig.

2) Cymeradwyo'r cynlluniau sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer Rhaglen Ariannu Cymru (WFP) ar yr amod eu bod yn bodloni'r achosion busnes priodol heb gost i'r cyngor.

## 74. FPR7 - Prosiect Isadeiledd Ffordd y Brenin

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Phrosiectau Mawr adroddiad a oedd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol, "Rhaglennu a Gwerthusiadau Cyfalaf", i gyflwyno ac awdurdodi amrywiad ar gynllun cyfalaf presennol yn y Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo diwygio'r prosiect arfaethedig a'i oblygiadau ariannol, a'i ychwanegu at y rhaglen gyfalaf.

## 75. Adborth o'r Cyfarfod Craffu cyn Penderfynu - Adroddiad Arfarnu Opsiynau Adolygiad Comisiynu Diogelu'r Cyhoedd.

Cyflwynodd y Cynghorydd C A Holley yr adborth ar graffu cyn penderfynu.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi cynnwys yr adborth ar graffu cyn penderfynu.

## 76. Adroddiad Arfarnu Opsiynau Adolygiad Comisiynu Diogelu'r Cyhoedd.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd adroddiad a oedd yn amlinellu cefndir Adolygiad Comisiynu Diogelu'r Cyhoedd gan nodi'r casgliadau a'r argymhellion allweddol.

**Penderfynwyd:**

1) Derbyn casgliadau allweddol yr adroddiad a chymeradwyo cynigion y cyfleoedd masnachol i'w rhoi ar waith.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.17 pm

**Cadeirydd**

Cyhoeddedig: 20 Hydref 2017